



Wedi ei ariannu gan
Llywodraeth y DU



Sir Ddinbych Ffyniannus - **Cynllun Grant Twf ac
Arloesi Mentrau Cymdeithasol**

Nodiadau Canllaw

**Ariannwyd gan Lywodraeth y DU drwy Gronfa Ffyniant
Gyffredin y DU (UKSPF)
Cyflwynir gan Gyngor Sir Ddinbych / Cadwyn Clwyd**

1. Beth yw Sir Ddinbych Ffyniannus?

Ariannir prosiect Sir Ddinbych Ffyniannus gan Lywodraeth y DU drwy'r Gronfa Ffyniant Gyffredin (UKSPF), sy'n canolbwyntio ar y blaenoriaethau buddsoddi canlynol:

- 1) Pobl a sgiliau
- 2) Cefnogi busnesau lleol
- 3) Cymuned a lle

Mae nod y prosiect yn cyd-fynd â nodau'r UKSPF i hybu cynhyrchiant, cyflogau, swyddi a safonau byw drwy dyfu'r sector preifat, gyda ffocws ar gefnogi mentrau micro a bach gan gynnwys mentrau cymdeithasol yn Sir Ddinbych. Yr amcanion yw:

- Creu swyddi a hybu cydlyniant cymunedol, drwy fuddsoddiadau sy'n adeiladu ar ddiwydiannau a sefydliadau presennol, ac sy'n amrywio o gefnogaeth i ddechrau busnesau i welliannau gweladwy i gyfleusterau'r sectorau manwerthu lleol, lletygarwch a hamdden.
- Cynyddu buddsoddiad y sector preifat mewn gweithgareddau sy'n gwella twf, drwy gefnogaeth wedi'i thargedu i fusnesau micro a bach i ymgymryd ag arloesi newydd-i'r-fenter, mabwysiadu technolegau a thechnegau sy'n gwella cynhyrchiant, sy'n ynni-ffeithlon ac yn garbon isel; a dechrau neu dyfu eu hallforion.

Mae [Prospectws Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU](#) yn darparu trosolwg cynhwysfawr o'r gronfa.

Bydd Sir Ddinbych Ffyniannus - Cynllun Grant Twf ac Arloesi Mentrau Cymdeithasol yn cynnig cyllid hyd at 90% ar wariant **CYFALAF** cymwys ar gyfer prosiectau, gyda dyfarniadau o £1,000 hyd at £9,000.

Mae'r cynllun grant uwch hwn yn ddewisol a bydd yn cael ei weithredu ar sail y cyntaf i'r felin, yn dibynnu ar argaeledd cyllid a chwblhau'r prosiect o fewn yr amserlen fanwl.

Bydd pob cynnig o gyllid yn amodol ar gymeradwyo ceisiadau gan Banel Adolygu Grantiau.

Yn dilyn cadarnhau dyfarniad, rhaid i bob cynnig gael ei dderbyn a'r cyllid gael ei hawlio (drawndown) heb fod yn hwyrach na **14^{eg} Medi 2026**.

2. Cymhwysra

Mae'r cynllun yn agored i fentrau cymdeithasol newydd a rhai sy'n masnachu eisoes, sydd wedi'u lleoli yn Sir Ddinbych.

I wneud cais, rhaid i'ch sefydliad:

- Fod wedi'i leoli yn Sir Ddinbych (bod â chyfeiriad gweithredu yn Sir Ddinbych)
- Darparu budd cymdeithasol a/neu amgylcheddol
- Ennill incwm drwy fasnachu (gwerthu nwyddau a/neu wasanaethau)
- Dangos bod y sefydliad yn ariannol hyfyw

- Bod trefniadau llywodraethu priodol ar waith (e.e. bwrdd/pwyllgor a phenderfynu priodol)
- Cael cyfrif banc busnes yn enw'r sefydliad
- Bod wedi bod yn masnachu'n weithredol am o leiaf 6 mis a bod wedi cofrestru gyda CThEF (HMRC)

I gael ei ystyried, rhaid i'ch prosiect:

- Ffitio o fewn un neu fwy o ymyriadau'r cynllun a chefnogi twf, arloesi a/neu gynaliadwyedd.
- Cyflwyno technolegau neu dechnegau sy'n gwella cynhyrchiant, sy'n ynni-effeithlon a/neu'n garbon isel.
- Helpu'ch menter i gyflwyno prosesau newydd (ffordd newydd o weithio).
- Helpu'ch menter i ddatblygu a chynhyrchu cynhyrchion newydd.

Dylai'ch prosiect anelu at gyflawni:

- **Swyddi a grëwyd** o ganlyniad i'r gefnogaeth (rolau newydd).
- **Swyddi a ddiogelwyd** o ganlyniad i'r gefnogaeth (rolau presennol wedi'u diogelu).

Mae'r grant hwn ar gyfer mentrau cymdeithasol sydd wedi'u lleoli yn Sir Ddinbych ac sydd wedi bod yn masnachu am o leiaf 6 mis. Rhaid i'ch prosiect helpu'r sefydliad i wella'r ffordd y mae'n gweithredu (e.e. offer newydd, systemau digidol, gwelliannau ynni-effeithlon/carbon isel), cyflwyno proses newydd neu ddatblygu cynnyrch/gwasanaeth newydd—ac yn ddelfrydol dylai arwain at greu neu ddiogelu swyddi.

Sefydliadau nad ydynt yn gymwys

Nid yw'r canlynol yn gymwys:

- Sefydliadau nad ydynt yn masnachu
- Unigolion yn gwneud cais yn bersonol
- Sefydliadau gwleidyddol
- Sefydliadau sy'n dosbarthu elw'n bennaf i unigolion preifat
- Sefydliadau statudol y sector cyhoeddus
- Sefydliadau mewn trallod ariannol neu ansolfedd

Beth yw Menter Gymdeithasol?

Menter gymdeithasol yw “busnes â nodau cymdeithasol yn bennaf, a chaiff ei wargedion eu hail-fuddsoddi'n bennaf at y diben hwnnw yn y busnes neu yn y gymuned, yn hytrach na chael ei yrru gan yr angen i wneud y mwyaf o elw i gyfranddalwyr a pherchnogion.”

At ddibenion y grant, rhaid i fenter gymdeithasol fod yn fenter sy'n ymwneud â gweithgarwch masnachu.

Costau Cymwys

Rhaid i gostau cymwys gefnogi un o'r canlynol:

- **Costau i fentrau fynd i'r afael ag effaith newid hinsawdd ar y busnes ac uchelgeisiau sero net.** Er enghraifft, gallai hyn gynnwys prynu technolegau a thechnegau sy'n gwella cynhyrchiant, sy'n ynni-effeithlon ac yn garbon isel.
- **Costau sy'n galluogi mentrau i gyflwyno prosesau newydd.** Er enghraifft, gallai hyn gynnwys meddalwedd ar gyfer rheoli stoc, neu dalu am wasanaethau i ddatblygu prosesau e-fasnach newydd ar gyfer gwneud archebion, neu ar gyfer prynu gwasanaethau. Gallai enghreifftiau o bryniannau cyfalaf gynnwys: (1) system til pwynt-gwerthu (POS) (caledwedd) gyda sganiwr cod bar/argraffydd derbyneb i gyflwyno proses werthu a rheoli stoc newydd; (2) tabledi/liniaduron a gosodiad dyfais archebu/gwasanaeth maes (caledwedd) i gyflwyno proses archebu digidol, cofrestru (check-in), neu reoli swyddi newydd.
- **Costau i fenter ddatblygu a chynhyrchu cynhyrchion newydd.** Er enghraifft, gallai hyn gynnwys costau llogi neu brydlesu offer a pheiriannau i ddylunio neu gynhyrchu cynhyrchion newydd.

Blaenoriaeth allweddol i'r prosiect yw cefnogi mentrau i fynd i'r afael â'u huchelgeisiau sero net; cyflwyno cynhyrchion newydd a/neu brosesau newydd nad yw'r fenter wedi'u darparu o'r blaen. Bydd ffocws ar gefnogi cyflwyno technolegau arloesol a ffyrdd newydd o wneud busnes. Bydd cynigion arloesol mewn ceisiadau grant yn sgorio'n uchel yn y broses werthuso ceisiadau. Gall prosesau newydd wella cynhyrchiant, cynyddu trosiant, proffidoldeb a chyfran o'r farchnad, drwy wneud y busnes yn fwy cystadleuol. Fel arfer, bydd prosiectau cymwys yn cynnwys ehangu, arallgyfeirio a moderneiddio busnes presennol. Gallai gwariant fod yn fuddsoddiad newydd mewn asedau, megis eitemau bach o offer, neu weithredu technoleg lleihau carbon i wella credydau gwyrdd presennol y busnes.

Rhaid i bob cost gymwys ymwneud â chyflwyno cynhyrchion neu brosesau newydd. Gall enghreifftiau o gostau cymwys gynnwys:

Costau CYFALAF – dim ond buddsoddiad cyfalaf yn y fenter y bydd y gronfa'n ei gefnogi, ar eitemau megis:

- Offer a pheiriannau
- Gwaith corfforol a gwelliannau
- Gwasanaethau proffesiynol (ffioedd pensaer ar gyfer adeiladu cyfalaf)
- Gwaith lleihau carbon neu gynaliadwyedd
- Gwelliannau hygyrchedd

Dylai prosiectau ddangos effaith gymdeithasol neu amgylcheddol glir ynghyd â ffocws ar sicrhau cynaliadwyedd neu dwf y fenter gymdeithasol.

Costau Anghymwys

Nid yw'r costau canlynol yn gymwys ar gyfer cyllid:

- Costau referniw

- Cyflogau neu gostau staffio
- Costau gweithredu craidd (rhent, cyfleustodau, yswiriant)
- Stoc neu eitemau traul
- Ad-dalu dyled
- Costau ôl-weithredol
- TAW y gellir ei adennill gan CThEF (HMRC)
- Rhoddion neu gyfraniadau
- Dirwyon neu gosbau cyfreithiol
- Ymgyrchu gwleidyddol neu grefyddol
- Costau a ariennir gan grant cyhoeddus arall
- Cyfalaf gweithio

Ni ellir defnyddio'r grant i ailgyllido rhwymedigaethau'r sefydliad.

3. Gofynion Cyllid Cyfatebol

Rhaid i ymgeiswyr sy'n gwneud cais i Gynllun Grant Twf ac Arloesi Mentrau Cymdeithasol ddarparu o leiaf 10% o gyllid cyfatebol tuag at gyfanswm costau'r prosiect.

Rhaid i gyllid cyfatebol fod:

- Cyllid arian parod
- O ffynonellau cymwys
- Ar gael ar adeg gwneud cais

Ni all cyllid cyfatebol fod:

- Cyfraniadau mewn nwyddau
- Grant cyhoeddus arall

4. Sut i Gael Cyngor a Gwneud Cais

Rhaid i ymgeiswyr gysylltu â Thîm y Rhaglen Grant cyn cyflwyno cais.

Gall y tîm:

- Cadarnhau cymhwysra
- Darparu canllaw ar ddatblygu'r prosiect
- Cefnogi paratoi'r cais
- Cyfeirio at gymorth ychwanegol

Manylion cyswllt:

Helen Williams

Ffôn: 01490 340500

E-bost: helen.williams@cadwynclwyd.co.uk

Rhaid cyflwyno ceisiadau'n electronig drwy'r system grant gymeradwy.

Dim ond un cais fesul sefydliad a dderbynnir.

5. Cwblhau'r Ffurflen Gais

Rhaid i ymgeiswyr gwblhau pob adran o'r ffurflen gais a darparu dogfennau ategol.

Rhaid i geisiadau gynnwys:

- Manylion y sefydliad
- Disgrifiad o'r prosiect
- Gwybodaeth ariannol
- Tystiolaeth o effaith gymdeithasol
- Cyllideb y prosiect
- Dyfynbrisiau ar gyfer costau'r prosiect
- Cynllun busnes
- Rhagolwg llif arian
- Pob gofyniad statudol, cyfreithiol a rheoleiddiol sy'n berthnasol i'r prosiect

(megis, ond heb fod yn gyfyngedig i: caniatâd cynllunio, Asiantaeth Safonau Bwyd, trwyddedu neu bolisi diogelu.)

Dyfynbrisiau

Amcangyfrifon/dyfynbrisiau gwreiddiol ar gyfer eitemau/gwaith y prosiect (2 ddyfynbris wedi'u heitemeiddio ar gyfer eitemau/gwaith sy'n costio hyd at £2,500, 3 dyfynbris wedi'u heitemeiddio ar gyfer unrhyw eitem/gwaith sy'n costio dros £2,500 neu fwy)

Dylai'r dyfynbrisiau ddilyn yr un templed ac, lle bo'n berthnasol, gael eu rhannu'n rannau i ddangos costau elfennau unigol y gwaith

Pryniannau Arian Parod – ni thalwyd unrhyw gyllid lle mae trafodion arian parod wedi'u cynnal.

Ni ddyfernir cyllid ôl-weithredol.

Rhaid i brosiectau beidio â dechrau cyn derbyn cymeradwyaeth ffurfiol.

CYMORTH GWLADWRIAETHOL / RHEOLAETH CYMORTHDAL

Dyfernir y grantiau o dan Gymorth Ariannol Lleiaf (MFA)

Mae cymorth ariannol lleiaf (MFA) yn caniatáu i awdurdodau cyhoeddus ddyfarnu cymorthdaliadau o werth isel (hyd at £315,000)

Ni ellir rhoi MFA ychwanegol i fuddiolwr sydd eisoes wedi cyrraedd ei drothwy MFA.

Fel rhan o'r broses ymgeisio, bydd gofyn i chi:

- Datgan eich bod yn deall bod y cyllid yn cael ei gynnig fel cymhorthdal o dan MFA
- Datgan na fydd y trothwy MFA a nodir yn adran 36(1) o'r Ddeddf yn cael ei ragori gan y fenter sy'n derbyn y cymorth arfaethedig

Wrth wneud eich datganiad, dylech ystyried yr holl gymorth cymhorthdal (gan gynnwys grantiau) a dderbyniwyd drwy'r cynlluniau canlynol yn ystod y 3 blynedd ariannol flaenorol

De Minimis, 'Hawliau Tynnu Arbennig' (SDR), UK de minimis, 'Symiau Bach o Gymorth Ariannol' (SAFA, yr enw cyfredol), 'Eithriad Symiau Bach o Gyllid' (SAFE) a 'Chymorth Ariannol Lleiaf' (MFA).

6. Prosesu Eich Cais

Ar ôl derbyn eich ffurflen gais lawn, bydd Cadwyn yn:

- Gwirio bod yr holl fanylion a ddarparwyd mewn trefn ac, os nad ydynt, eich hysbysu pa wybodaeth ychwanegol sydd ei hangen.
- Cynnal gwiriadau os oes angen.
- Cyfeirio'r cais at y Panel Grantiau i wneud penderfyniad. *Bydd pob cais yn cael ei ystyried ar sail ei deilyngdod ac yn unol â nodau ac amcanion y cynllun.*

7. Rhoi Gwybod am y Penderfyniad

Byddwch yn cael gwybod am y penderfyniad drwy e-bost. Os byddwch yn llwyddiannus, byddwch yn cael gwybod faint o gyllid a gynigir ac unrhyw amodau penodol sy'n ymwneud â'r dyfarniad. Bydd y contract 'Telerau ac Amodau' wedi'i atodi i'r llythyr, a rhaid i chi gadw ato. Rhaid i hwn gael ei lofnodi a'i ddychwelyd o fewn 14 diwrnod fel derbyniad o'r cynnig cyllid.

8. Gwneud Cais am Daliad (Hawlio)

Mae ein holl gyllid ar sail talu ar ôl gwario (h.y. rhaid i'r hawlydd wario'r arian yn gyntaf ac yna hawlio'r swm a gytunwyd yn ôl, fel y nodir yn llythyr cynnig y grant).

Fel arfer, byddwn yn gwneud hyn mewn 1/2 randaliad yn dibynnu ar y prosiect a'i broffil gwariant.

Yn dilyn cadarnhau dyfarniad, rhaid i bob cynnig gael ei dderbyn a'r cyllid gael ei hawlio (drawndown) heb fod yn hwyrach na **14^{eg} Medi 2026**. Ni ellir ymestyn y dyddiad cau hwn.

Gan fod hon yn gronfa amser cyfyngedig, bydd pob cynnig grant (yn llawn neu'n rhannol) na chaiff ei hawlio yn unol â'r uchod yn dod i ben yn awtomatig.

Wrth gyflwyno hawliad, bydd angen prawf o wariant. Rhaid i hyn gynnwys:

- Pob cyfrif/anfoneb perthnasol gyda derbynebaw (*rhaid i anfonebau beidio â bod yn gynharach na'r llythyr/contract cynnig a lofnodwyd ac a ddychwelwyd*).
- Bydd angen copiâu o'r datganiadau banc cyfatebol sy'n dangos taliadau'n gadael cyfrifon y cwmni hefyd.

Ni dderbynnir trafodion arian parod fel rhan o hawliad.

Bydd Cadwyn yn sicrhau bod y gweithgaredd y dyfarnwyd y cyllid ar ei gyfer (gwaith a wnaed neu bryniannau a wnaed) wedi'i gwblhau'n llawn yn unol â'r cynnig a gyflwynwyd yn y cais ac unrhyw amodau sydd ynghlwm wrth y gymeradwyaeth. Gall hyn fod drwy arolygiad neu drwy unrhyw

ddull arall y bydd Cadwyn yn penderfynu arno. Pan fydd yr uchod i gyd wedi'i gwblhau, bydd Cadwyn yn rhyddhau'r cyllid i'ch Cyfrif Banc Busnes drwy daliad BACS.